# DDEDDF IECHYD Y CYHOEDD (CYMRU) 2017

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 9

### Amrywiol a Chyffredinol

#### *Adran 119 - Derbyniadau cosb benodedig ar gyfer troseddau sgorio hylendid bwyd*

259. Mae'r adran hon yn diwygio adran 22 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013. Mae'r adran honno yn rheoleiddio'r defnydd a wneir o arian a geir gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru fel tâl cosbau penodedig mewn cysylltiad â throseddau amrywiol sy'n berthnasol i arddangos sticeri sgôr hylendid bwyd yn fandadol sy'n ofynnol gan Ddeddf 2013.

260. Mae adran 22 o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau dalu'r arian a geir i Weinidogion Cymru; mae'r adran hon, yn lle hynny, yn galluogi cyngor i ddefnyddio derbyniadau cosb benodedig at ddiben ei swyddogaethau sy'n ymwneud â gorfodi darpariaethau Deddf 2013, a rheoliadau a wneir odani.

#### *Adrannau 120 a 121 - Troseddau gan gyrff corfforaethol, partneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig eraill*

261. Mae'r adrannau hyn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â throseddau a gyflawnir, neu yr honnir eu bod wedi eu cyflawni, o dan y Ddeddf gan gorff corfforaethol; partneriaeth; neu gymdeithas anghorfforedig arall ("cyrff perthnasol").

262. Mae adran 120 yn ei gwneud yn bosibl, o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (2), i unigolion sy'n dal swyddi cyfrifol mewn corff perthnasol (yr "uwch-swyddogion" a ddiffinnir gan yr adran) fod yn droseddol atebol am drosedd a gyflawnir gan y corff.

263. Mae adran 121 yn gwneud darpariaeth ynghylch dwyn achos yn erbyn partneriaethau neu gymdeithasau anghorfforedig eraill ac mewn cysylltiad â dwyn achos o'r fath.

#### *Adran 122 - Rhoi hysbysiadau*

264. Mae'r adran hon yn darparu manylion ynghylch sut y mae hysbysiad i gael ei roi o berson i berson arall o dan y Ddeddf neu reoliadau a wneir odani. Mae'n gosod gofynion mewn perthynas â ffurf yr hysbysiad (rhaid iddo fod yn ysgrifenedig) a'r dull a ganiateir ar gyfer danfon hysbysiad. Mae hyn yn darparu eglurder ar gyfer y person sy'n rhoi'r hysbysiad a'r person sy'n cael yr hysbysiad.

#### *Adran 123 - Rheoliadau*

265. Mae'r adran hon yn esbonio bod pwerau i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon i gael eu harfer drwy offeryn statudol (ystyr hyn yw bod gofynion gweithdrefnol penodol a gofynion eraill sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Offerynnau Statudol 1946 yn gymwys i reoliadau a wneir o dan y Ddeddf), ac yn nodi'r weithdrefn, mewn perthynas â rhan

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sydd i gael ei dilyn wrth wneud rheoliadau o dan adrannau gwahanol o'r Ddeddf.

### *Adran 124 - Dehongli*

266. Mae'r adran hon yn diffinio termau cyffredinol sy'n gymwys yn y Ddeddf gyfan.

### *Adran 125 - P#er i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc.*

267. Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol neu arbed mewn rheoliadau. Rhaid i ddarpariaeth o'r fath fod at ddibenion y Ddeddf, o ganlyniad i ddarpariaeth o'r fath neu'n angenrheidiol er mwyn rhoi effaith lawn iddynt. Er enghraifft, gall fod angen trefniadau â therfyn amser iddynt er mwyn caniatáu amser priodol i ymarferydd triniaeth arbennig gydymffurfio â'r gofynion newydd a gyflwynir gan y Ddeddf.

### *Adran 126 - Dod i rym*

268. Mae is-adran (1) o'r adran hon yn nodi darpariaethau'r Ddeddf sy'n cael effaith ar ddyddiad y Cydsyniad Brenhinol. Bydd unrhyw ddarpariaeth nas crybwyllir yn is-adran (1) yn dod i rym ar ddyddiad a bennir drwy orchymyn cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru. Caniateir i ddyddiadau gwahanol gael eu pennu.

### *Adran 127 - Enw byr*

269. Mae hyn yn darparu mai enw byr y Ddeddf yw Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.